SIAMBR DRETH HAEN GYNTAF – NODYN AR AWDURDODAETH

Bydd gan Farnwyr Tribiwnlys sy'n derbyn ffi awdurdodaeth mewn perthynas â threth uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae'r nodyn hwn yn rhoi blas o'r awdurdodaeth ac nid yw'n rhestr gynhwysfawr. Disgwylid i'r sawl a benodir ddelio â materion treth uniongyrchol ac anuniongyrchol, ond mae'n debyg y byddai galw am rywfaint o arbenigedd yn ôl disgresiwn Llywydd y Siambr

- Asesiadau a diwygiadau Treth Incwm Bersonol
- Treth Gorfforaeth, asesiadau a diwygiadau cwmnïau
- Treth Enillion Cyfalaf, sydd fel arfer yn golygu penderfynu a yw gostyngiad penodol yn berthnasol
- Treth Cyflogwyr, cosbau megis methu â llenwi ffurflenni treth cyflogwyr
- Gwrthod tystysgrif Is-gontractiwr neu ei thynnu'n ôl
- Ceisiadau dan Adran 20 Deddf Rheoli Trethi 1970
- Cyfraniadau Yswiriant Gwladol, materion sy'n ymwneud â hawliadau statudol
- Treth Petrolewm, treth elw annisgwyl a threth stamp wrth gefn
- Treth Etifeddu
- Cofrestru neu ganslo cofrestriad unrhyw unigolyn dan Ddeddf TAW 1994
- Y TAW sy'n daladwy wrth gyflenwi unrhyw nwyddau neu wasanaethau
- Materion sy'n ymwneud â threth fewnbwn
- Hawliadau am ad-daliadau sy'n ymwneud â nwyddau wedi'u caffael gan aelod arall, nwyddau a fewnforiwyd at ddibenion preifat, adeiladu adeiladau penodol, drwgddyledion, cyflenwi trafnidiaeth o fath newydd
- Gwrthod ceisiadau cyrff corfforaethol sy'n cael eu trin fel aelodau o grŵp; y gofyniad am ddiogelwch gan y Comisiynwyr; materion sy'n ymwneud ag ardystio ffermwyr
- Atebolrwydd i gosbau a gordaliadau yn sgîl diffyg talu; materion osgoi TAW mewn cyrff corfforaethol
- Asesiadau sy'n ymwneud â methu dychwelyd ffurflenni treth ac â symiau sy'n ddyledus drwy gosb, llog neu ordal
- Ad-dalu TAW sydd wedi'i ordalu
- Treth Tirlenwi, dan Ddeddf Cyllid 1996
- Apeliadau tollau tramor, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â swm y tollau, ardoll amaethyddol, gwrthod cymeradwyo neu awdurdodi eiddo, gwrthod storio nwyddau a atafaelwyd
- Treth premiwm yswiriant, ardoll newid yn yr hinsawdd, ardoll agregau, Cofrestru Bureaux de Change.